



# LLWYBR NATUR BOSITIF I DDATGARBONEIDDIO AMAETHYDDIAETH A DEFNYDD TIR YN Y DU

## FFOCWS AR WLAD - CYMRU

Mae angen i dirweddau'r Deyrnas Unedig, a'r ffordd y caiff ein bwyd ei gynhyrchu a'i fwyta, newid ar frys er mwyn helpu i sicrhau sero net, adfer natur a lleihau ein hól-droed amgylcheddol byd-eang. Yn syml, nid oes modd cyflawni ein hymrwymiaid hinsawdd a natur yn un, heb ddod ynghyd i ail-lunio ein system bwyd yn sylfaenol.

Mae WWF wedi nodi gweledigaeth drosfwaol ar gyfer yr hyn y gall y sectorau amaeth a defnydd tir yn y Deyrnas Unedig ei gyflawni yn y degawd hwn er mwyn ein rhoi ar daith allyriadau isel sy'n canolbwyntio ar natur at gynhyrchu a bwyta bwyd sero net.<sup>1</sup> O gymryd y camau a argymhellwn, sydd wedi'u seilio ar ddadansoddiad annibynnol, gwelwn lwybr credadwy a chadarnhaol i'r Deyrnas Unedig gyfan:

- **Leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdr uniongyrchol o amaethyddiaeth y D.U. o leiaf 35% erbyn 2030 a 51% erbyn 2050, o gymharu â lefelau 2018**
- **Newid defnydd tir yn y D.U. o ffynhonnell allyriadau net i ddalfa net erbyn 2040 fan hwyraf**
- **Atal a gwrthdroi colli natur yn y D.U. erbyn 2030.**
- **Lleihau ôl-troed ffermio'r D.U. tramor sy'n gysylltiedig â bwyd soia a gwrtaith o leiaf 31% erbyn 2030 a 57% erbyn 2050, o gymharu â lefelau 2018**

Yng Nghymru, ffermio yw'r prif ddefnydd tir, gyda rhyw 80 y cant o dir Cymru'n cael ei reoli ar gyfer amaethyddiaeth. Amaethyddiaeth oedd yn gyfrifol am 14% o allyriadau Cymru yn 2019<sup>2</sup> ac nid yw'r allyriadau wedi lleihau dros y degawd diwethaf. Yn hytrach, maent wedi codi o ychydig o dan 5 MtCO<sub>2</sub>e yn 2010 i 5.3 MtCO<sub>2</sub>e yn 2019. Mae ffermwyr a rheolwyr tir yn stiwardiaid i'n tir, ac mae ganddynt ran enfawr i'w chwarae yn y gwaith o leihau allyriadau, yn ogystal â storio carbon ac adfer natur. Gan fod amaethyddiaeth yn ganolog i wead economaidd, diwylliannol a chymdeithasol cefn gwlad Cymru, rhaid i'r newid i ymochri amaethyddiaeth a defnydd tir yng Nghymru â sero net fod yn un cyfiawn, ac wedi'i gynnal gan newidiadau ehangach ar lefel system. Felly mae newid i amaeth-ecoleg yng Nghymru yn bwysicach fyth.

## Gall Llywodraeth Cymru sicrhau'r newid hwn trwy roi'r camau canlynol ar waith ar frys:

1. Adeiladu ar Cymru Sero Net Cyllideb Carbon 2 trwy ymgysylltu â'r sector amaeth a rhanddeiliaid ehangach i osod targedau ar gyfer lleihau allyriadau domestig a phennu llwybrau ar gyfer amaethyddiaeth a defnydd tir yng Nghymru, sy'n cyfrannu at leihau nwyon tŷ gwydr ledled y D.U. o leiaf 35% erbyn 2030 a 51% erbyn 2050, o gymharu â lefelau 2018 (gan adfer natur a heb gynyddu ein hól-troed amgylcheddol tramor).
2. Diweddarau Cymru Sero Net Cyllideb Carbon 2 fel ei bod yn cyfrifo am ac yn adrodd ar yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sylweddol a achosir gan Gymru mewn gwledydd tramor o ganlyniad i'r datgoedwigo a cholli cynefinoedd sy'n gysylltiedig â mewnforio nwyddau i Gymru, gan gynnwys bwydydd da byw.
3. Cynnwys targedau, llwybrau a mesurau i leihau nitrogen a methan yn y ddogfen Cymru Sero Net Cyllideb Carbon 2 a fydd yn cyfrannu at dargedau'r Deyrnas Unedig o haneru gwastraff nitrogen erbyn 2030 a lleihau allyriadau methan 30% erbyn 2030, o gymharu â lefelau 2020.
4. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni ar frys ei hymrwymiaidau i adfer natur yn y ddogfen Cymru Sero Net Cyllideb Carbon 2 a'r Cynllun Adfer Natur, gan gynnwys gwella dalfeydd carbon glas. Mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd adolygu ei hymrwymiaidau o ran adfer natur yn y ddogfen Cymru Sero Net Cyllideb Carbon 2, a sicrhau eu bod yn adeiladu ar ei gilydd er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r targedau natur sydd i gael eu gosod mewn deddfwriaeth.
5. Cyflawni ymrwymiaidau Cymru Sero Net Cyllideb Carbon 2 i hyrwyddo newid dietegol yn unol â dietau cynaliadwy ac iach sy'n ystyriol o'r hinsawdd. I gefnogi hyn, rhaid i gaffael yn y sector cyhoeddus symud at brynu bwyd o ansawdd da gydag effaith fach o Gymru, a rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi datblygiad marchnadoedd lleol. Bydd angen prisiau teg wrth gât y fferm er mwyn sicrhau newid cyfiawn. Gellir cefnogi hyn trwy'r Strategaeth Bwyd Cymunedol, a ddylai gael ei chyd-gynllunio erbyn canol 2022.
6. Sicrhau bod Bil Bwyd (Cymru) yn enghreifftio ymagwedd system gyfan at bolisiau sy'n ymwneud â bwyd trwy greu synergeddau ar draws adrannau llywodraethol er mwyn cyrraedd targedau polisi sy'n ymwneud ag iechyd a lles, hinsawdd a natur, cyfiawnder cymdeithasol a chydnerthedd cymunedol.
7. Cynllunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy erbyn canol 2023 sy'n symud cymorthdaliadau amaethyddol tuag at wobrwyo ffermwyr yn briodol am gynhyrchu canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol. Gan na fyddai hwn yn agor tan 2025, ac y byddai cyfnod pontio o nifer o flynyddoedd wedyn er mwyn i ffermwyr drosglwyddo i'r Cynllun, bydd angen ymyrraeth sylweddol gan y llywodraeth a rhaglenni ychwanegol rhwng 2022 a 2030 os ydym am sicrhau bod amaethyddiaeth a defnydd tir yn chwarae'r rhan hollbwysig mae ei hangen i gadw Cymru ar y trywydd iawn i gyrraedd sero net ac adfer natur yn y degawd hwn o weithredu.
8. Cynorthwyo ffermwyr a thyfwyr i symud at arferion mwy cynaliadwy, gan gymell yn gryf arferion ffermio adferol sy'n ystyriol o natur a'r hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddarparu adnoddau sylweddol rhwng 2022 a dechrau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy er mwyn cefnogi'r newid i amaeth-ecoleg.
9. Sicrhau bod yr amcanion a thargedau a bennir yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn nodi'n glir cyfraniad y cynllun at lwybrau newid hinsawdd sero net ar gyfer defnydd tir ac amaethyddiaeth.
10. Dylai Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio ffynonellau data fel Rhaglen Monitro a Modelu yr Adran Amgylchedd a Materion Cefn Gwlad i adeiladu ar y model Datganiadau Ardal ac i ddatblygu cynlluniau gweithredu defnydd tir gofodol ar lefel dalgylch. Wedyn dylai'r cynlluniau gweithredu defnydd tir gofodol hyn nodi cyfleoedd realistig i adfer natur a lliniaru effeithiau newid hinsawdd sydd wedi'u halinio â chronfeydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cefnogi penderfyniadau ar y fferm.

<sup>1</sup> <https://www.wwf.org.uk/landofplenty>

<sup>2</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-25.pdf> (cyrchwyd mis Rhagfyr 2021)

